

Gwrthwynebu diwylliant

“Y mae ffyliaid yn gwawdio euogrwydd, ond yr uniawn yn deall beth sy’n dderbyniol.” (adn. 9)

Beth am ddarllen Diarhebion 14:1–12 ac yna myfyrio

Yn anffodus, mae rhai eglwysi, yn eu hymdrech i ddianc oddi wrth y darlun o bwyntio bys wrth efengylu, wedi mynd i’r eithaf arall gan ddweud ychydig, os rhywfaint, am bechod. Gan fod gwirionedd y neges Gristnogol yn mynd ar draws teimladau’r hyn a ddigwydd yn y diwylliant cyfoes, mae’n rhaid i ni fod yn ofalus nad yw ein cymdeithas yn tynnu’r min oddi ar ei neges. Dyna pam, mi gredaf, y mae angen pwysleisio pechod yn gyson. Rhaid atgoffa y rhai sydd wedi credu, ac mae ar y rhai sydd heb gredu angen eu herio er mwyn iddynt ddod i gredu.

Mae ein diwylliant heddiw yn tueddu i gymysgu da a drwg, ac nid oes fawr o neb ag awydd i sefyll yn gadarn gyda golwg ar unrhyw beth. Mewn nifer o ysgolion mae athrawon bellach wedi peidio â defnyddio ymadroddion fel “Paid. Rwyf ti’n amharu ar y dosbarth.” Mae’r geiriau yma yn cael eu hystyried yn rhai beirniadol. Yn hytrach, maent yn gofyn, “Beth wyt ti’n ei wneud? Pam wyt ti’n gwneud hyn? Sut mae hyn yn gwneud i ti deimlo?”

Ar 12 Rhagfyr 1991, cyhoeddwyd erthygl yn y *Wall Street Journal* oedd yn awgrymu y dylem adfer y gair ‘pechod’ a’i ddefnyddio unwaith eto. Yn yr Unol Daleithiau, yn ôl yr erthygl, mae yna broblem ddifrifol gyda chyffuriau; mae yna broblem yn eu hysgolion uwchradd; mae yna broblem hefo AIDS a phroblem hefo trais, a chydnyddir na fydd yr un o’r rhain yn diflannu nes y bydd i bobl mewn safleoedd o awdurdod ddod ymlaen ac esbonio mewn termau moesol fod rhai o’r pethau a wnawn heddiw yn anghywir.

Yn anffodus, mae’r gair ‘pechod’ yn fwy cyffredin ar fwydlen bwyty nag mewn ambell i eglwys. Tebyg bod y pechod o fwyta siocled yn fwy difrifol na’r pechodau a nodir yn yr Ysgrythur.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Esc. 32:1–4; 32:19–25; Eiseia 5:20; Mal. 2:17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod pobl yn galw’r hyn sy’n ddrwg yn dda?
2. Sut y bu i Aaron esgusodi ei bechod?

Gweddi

O Dad, cynorthwya ni fel dy Eglwys i beidio cael ein dylanwadu gan ddiwylliant ein dydd i’r graddau ein bod yn esgeuluso galw’r hyn sydd yn anghywir yn anghywir. Gwared ni rhag cydymffurfio a chyfaddawdu, a hynny yn enw Iesu. Amen.